

RHAGAIR I'R DOGFENNAU

Dyma nhw y cynnig cyfan – y manylion. Wrth daro golwg drostyn nhw efallai y byddai'n rhesymol chwilio am ble mae hyn yn effeithio arnom ni – sut mae hwn yn berthnasol i mi? - ble mae fy Nghyfarfod Lleol yn hyn i gyd? Mae'r atebion yn dechrau o'r cychwyn cyntaf, lle mae tarddiad ein bywydau fel Crynwyr, lle mae ein gwreiddiau ac o ble mae popeth yn tyfu – ein Cyfarfodydd i Addoli. Felly mae'r ddogfen gyntaf - y Memorandwm Cyd-Ddealltwriaeth arfaethedig rhyngom ni i gyd a'r ffordd yr ydym am drefnu ein hunain - yn cychwyn yn y fan honno. Gyda chi, yn eich Cyfarfod Lleol, yn addoli ac yn cymryd rhan yn yr hyn sy'n dechrau yn ein calonnau ac yn ymledu i'n cymuned ar draws Cymru a rhannau o'n gororau, ac ymhellach i'r BYM. Sut y gellid cydweithio i nyddu ein hadnoddau a'n harweiniad at ei gilydd i wneud y gorau o'n gallu i gynnal cyfarfodydd lleol ac i helpu ein gilydd gyda'r holl gefnogaeth y gellid ei rannu.

Felly – os edrychwch chi ar ddim byd arall, edrychwch ar y ddogfen gyntaf – y Memorandwm Cyd-Ddealltwriaeth Cyffredinol. Dechreuwch ar frig y golofn ar y chwith. Dyna chi, ar y dechrau, yn eistedd yn eich cyfarfod. Ble y dylwn fod, yn ceisio arweiniad ar gyfer ein bywydau mewnol, ac ysbrydoliaeth ar gyfer yr hyn sydd angen i ni ei wneud yn y byd. Rhedwch eich bys i lawr ac i'r ochr rhyw fymryn ac fe welwn gefnogaeth a chynhaliaeth ar y cyd â chyfarfodydd eraill yn ein Hardal. Yna y tu hwnt i'n Cyfarfodydd Ardal lleol gwelwn sut rydym drwy Crynwyr Cymru yn ymwneud â chyfleoedd eraill - i'n plant ddod at ei gilydd yn amlach; i ni allu gwneud y mwyaf o effeithiolrwydd gyrraedd allan, ac ati. Y cyfan yn cael ei ddal gyda'i gilydd gan sgaffaldiau "Yr Elusen" (math o strwythur elusennol a elwir yn "SCE / CIO").

Yn raddol, gallwn weld pwynt y strwythur arfaethedig hwn – y ffordd orau i ni stiwardio a gwario ein harian – sut y gallwch chi a minnau arwain a chefnogi ein Hymddiriedolwyr (ein "stiwardiaid") i ddirnad beth sydd angen ei wneud. Sut y gallem gymryd rhan, efallai fel un o ymddiriedolwyr eich CA, neu o leiaf gyddrafod â nhw mewn materion sy'n ymwneud yn benodol â'n sefyllfa leol. Yn raddol, daw'r holl ddolenni'n glir wrth i'n bys redeg i lawr y colofnau, gan ddechrau o'r "Cyfaill ar y Fainc" (i ddefnyddio hen ymadrodd o gyfnod anoddach. ("Cyfaill ar y Gadair gyda Chlustog" erbyn hyn, efallai).

Diau y bydd rhai ohonom am astudio'r manylion yn fanwl. Sut mae'r Ymddiriedolwyr hyn yn cael eu penodi? Faint o lais sydd gennym ni, ein Cyfarfodydd Ardal, ein pwyllgorau eiddo cyfarfodydd lleol, y sawl sy'n delio â chyllid yn lleol? Pwy sydd i fod yn "gyfrifol" yn y pen draw – sut mae'r cyfrifoldeb hwn yn adlewyrchu egwyddor sylfaenol y Crynwyr o fod yn eglwys lle mae awdurdod yn cael ei arfer o'r "gwaelod i fyny", nid yr "o'r brig i lawr"? Mae'r arwyddion yn y Memorandwm Cyd-Ddealltwriaeth yn arwain y Cyfeillion hynny (yn ddiramgwydd gobeithio) i'r dogfennau manwl ar gyfer yr atebion. Ac nid yw'r grŵp Symud Ymlaen am ddiflannu - bydd yno o hyd i egluro.

Efallai y byddwch chi a minnau yn holi tybed pam y cymerodd gymaint o amser i gyrraedd y pwynt hwn. Wel, roedd y broses gychwynnol (ac ni allwn fynd ymhellach nes i ni yn ein cyfarfodydd lleol gytuno ar y canlyniad) – wedi'i chyfyngu i 3 blynedd – ac rydym newydd ei gwblhau! Mae'r 11 aelod, -y penodwyd o leiaf 2 ohonynt gennych chi yn eich CA - wedi

neilltuo tipyn o'r amser hynny i ganfod pa fath o strwythur elusennol fyddai'n ateb ein hanghenion orau, a drafftio cyfansoddiad yn unol â hynny, gan ymgynghori ag CAau eraill ledled BYM, y Comisiwn Elusennau a Thŷ'r Cyfeillion ei hun – yn ogystal â dod yn ôl atoch i gadarnhau ein bod ni fwy neu lai ar y llwybr iawn – ac weithiau'n gorfod ailfeddwl wrth ymateb i'ch sylwadau. Yna ymlaen, gweithio ar bethau fel cyfuno polisïau, ac ati, ac ati.

Yn olaf, cais. Cofiwch fod yr 11 aelod hynny yn Gyfeillion, yn union fel chi. Mae nhw wedi gwneud eu gorau glas i gwrdd â'r cyfrifoldeb a roddwyd iddyn nhw gennych chi. Yn aml bu'n teimlo fel bod yn sownd mewn cors o ieithwedd fiwrocratiaeth. Wrth ystyried canlyniadau eu dirnadaeth, byddwch garedig. Ni all yr un ohonom ddisgwyl perffeithrwydd yn y byd hwn. Gweddïwn fod eu gorau glas yn "ddigon da".